

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Dileu Diweithdra Hirdymor Ymhlith Pobl Ifanc The Eradication of Long Term Youth Unemployment

Q11 Ann Jones: What has the Welsh Assembly Government done towards securing the eradication of long term youth unemployment in Wales? OAQ0483(FM)

C11 Ann Jones: Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ei wneud i sicrhau bod diweithdra hirdymor ymhlith pobl ifanc yn cael ei ddileu yng Nghymru? OAQ0483(FM)

The First Minister (Rhodri Morgan): In addition to working in partnership with Jobcentre Plus in implementing the UK Government's New Deal agenda, deliver our policies through the Extending Entitlement agenda, Careers Wales and the Youth Gateway programme, focusing on helping young people to remain in education and training and to make informed and sustainable transition and employment choices.

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Yn ogystal â gweithio mewn partneriaeth â'r Ganolfan Byd Gwaith i roi ar waith agenda Llywodraeth y DU ar gyfer y Fargen Newydd, yr ydym yn gweithredu ein polisiau drwy agenda Ymestyn Hawliau, Gyrfa Cymru a'r rhaglen Porth Ieuenctid gan ganolbwyntio ar helpu pobl ifanc i barhau mewn addysg a hyfforddiant ac i wneud penderfyniadau deallus a chynaliadwy o ran pontio a chyflogaeth.

Heddlu Marchogol Mounted Police Officers

Q12 Carl Sargeant: Will the First Minister make a statement on the possible introduction of mounted police officers in Wales? OAQ0496(FM)

C12 Carl Sargeant: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y posibilrwydd o gyflwyno heddlu marchogol yng Nghymru? OAQ0496(FM)

The First Minister: It is for individual police forces to decide whether to deploy mounted police officers.

Y Prif Weinidog: Cyfrifoldeb y gwahanol heddluoedd yw penderfynu a ydynt am ddefnyddio heddlu marchogol.

Darpariaeth Addysg Uwch Provision of Higher Education

Q13 Jocelyn Davies: Will the First Minister make a statement on the provision of higher education? OAQ0490(FM)

C13 Jocelyn Davies: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y ddarpariaeth addysg uwch? OAQ0490(FM)

The First Minister: We are determined to promote a vibrant higher education sector, regarded as the destination of first choice for students from Wales and further afield, based on excellence of provision.

Y Prif Weinidog: Yr ydym yn benderfynol o hyrwyddo sector addysg uwch byw sy'n ddewis cyntaf fel cyrchfan ar gyfer myfyrwyr o Gymru a thu hwnt, a hynny ar sail rhagoriaeth y ddarpariaeth.

Grant Bloc Cymru The Welsh Block Grant

Q14 Irene James: Will the First Minister make a statement about the effect of UK Government spending plans on the Welsh block grant? OAQ0487(FM)

C14 Irene James: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar effaith cynlluniau gwario Llywodraeth y DU ar grant bloc Cymru? OAQ0487(FM)

The First Minister: As part of the UK budget announcement on 16 March 2005, the Chancellor provided Wales with an additional £155 million over the next five years, of which £95 million was allocated from 2005-06 to 2007-08.

Y Prif Weinidog: Fel rhan o'r cyhoeddiad ar 16 Mawrth 2005 ynghylch cyllideb y DU, darparodd y Canghellor £155 miliwn yn ychwanegol i Gymru dros y pum mlynedd nesaf, a dyrannwyd £95 miliwn o'r arian hwnnw ar gyfer y cyfnod o 2005-06 tan 2007-08.

Mynediad at Wasanaethau'r GIG Access to NHS Services

Q15 Lisa Francis: Will the First Minister make a statement on the access to NHS services in Mid and West Wales? OAQ0477(FM)

C15 Lisa Francis: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar fynediad at wasanaethau'r GIG yn y Canolbarth a'r Gorllewin? OAQ0477(FM)

The First Minister: One of our main aims is the improvement of patient access and the reduction of the time patients have to wait for treatment. We are making significant progress in improving health in Wales; tackling health inequalities, increasing capacity, supporting NHS staff and dealing with waiting times and emergency pressures.

Y Prif Weinidog: Un o'n prif amcanion yw gwella mynediad cleifion at wasanaethau a lleihau'r amser y mae cleifion yn gorfod aros i gael triniaeth. Yr ydym yn gwneud cynnydd sylweddol o ran gwella iechyd yng Nghymru, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, cynyddu capasiti, cefnogi staff y GIG ac ymdrin ag amseroedd aros a phwysau achosion brys.